

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Gwerthusiad o Dyma Ni: Adroddiad Terfynol

Tachwedd 2020



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711

E-bost: wavehill@wavehill.com

Twitter: @wavehilltweets

Mwy o wybodaeth:

www.wavehill.com

<https://twitter.com/wavehilltweets>

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad â wneir at ei gynnwys.

Awduron yr adroddiad:

Nina Sharp ac Endaf Griffiths

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf at Nina Sharp (nina.sharp@wavehill.com)

Dyddiad y ddogfen: Tachwedd 2020

Fersiwn: 1

Cyswllt y cleient:

Meleri Richards | meleri.richards@ceredigion.gov.uk

Cynnwys

Cynnwys	iii
Crynodeb gweithredol	1
1 Cyflwyniad.....	2
1.1 Cefndir	3
1.2 Dulliau Ymchwil	5
2 Canfyddiadau Allweddol: Rheoli a Chyflawni'r Prosiect.....	7
2.1 Sut mae cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y person yn cael eu creu a pha mor effeithiol y buont o ran cyflawni rhyw lefel o ddatblygiad personol?	7
2.2 A yw'r dull o gyflawni drwy bartneriaeth wedi gweithio a beth fu'r cryfderau a'r gwendidau allweddol?	9
2.3 A archwiliwyd llwybrau at synergedd a chydweithredu â sefydliadau/partneriaid eraill i gryfhau'r prosiect?	11
2.4 Pa fodolau cyflawni posibl y gellid eu gweithredu wrth symud ymlaen a sut gallai'r rhain fod yn gynaliadwy?	13
2.5 A oes potensial i fodel y prosiect hwn gael ei gyflwyno'n ehangach i sefydliadau eraill yn y trydydd sector?	14
3 Sut mae'r cyfranogwyr wedi elwa o Dyma Ni?	16
3.1 Hyder	16
3.2 Annibyniaeth	17
3.3 Datblygiad Personol	18
3.4 Gofal Seibiant a Diogel	19
3.5 Integreiddio Cymunedol.....	20
3.6 Effeithiau Ehangach.....	21
4 Astudiaethau Achos	22
5 Casgliadau ac Argymhellion	26
5.1 Casgliadau	26
5.2 Argymhellion	27

Crynodeb gweithredol

Dechreuodd Dyma Ni fel prosiect cydweithredol rhwng RAY Ceredigion a Green Rocket Futures (GRF) er mwyn rhoi cymorth i bobl anabl 17-30 oed. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ac integreiddio cymunedol drwy ddull sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r modd y caiff Dyma Ni ei gyflawni wedi newid ers iddo gael ei greu, gan fod y bartneriaeth rhwng RAY Ceredigion a GRF wedi dod i ben, a RAY Ceredigion yn unig sydd bellach yn cyflawni gweithgareddau Dyma Ni.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar yr adroddiad canol tymor ac yn archwilio ymhellach sut mae'r prosiect wedi cynnwys y canlynol:

- Defnyddio cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y person a'u heffeithiolrwydd o ran datblygiad
- Archwilio cryfderau a gwendidau dull partneriaeth o gyflawni
- Archwilio llwybrau eraill at gyflawni ar sail partneriaeth
- Effeithiolrwydd y modelau cyflawni a ddefnyddiwyd a'u cynaliadwyedd
- Archwilio'r potensial i'r prosiect gael ei gyflwyno mewn mannau eraill
- Sut mae'r cyfranogwyr wedi elwa ohono.

Casglwyd data ymchwil oddi wrth staff Dyma Ni (n=3) a rhieni/gofalwyr y cyfranogwyr (n=7).

Yn gyffredinol, mae'r prosiect wedi'i gyflawni'n dda ac mae wedi cyflawni'i nod allweddol o gynnig cymorth i bobl 17-30 oed sydd ag anableddau ar ôl addysg amser llawn. Nodwyd bod y dull sy'n canolbwyntio ar y person a ddefnyddir yn y prosiect yn llwyddiant allweddol, a'i fod yn cynnig y cyfle i weithgareddau ganolbwyntio ar anghenion a diddordebau'r cyfranogwyr.

Mae llwyddiannau pellach y prosiect yn cynnwys:

- Cymryd rhan yn Dyma Ni yn adeiladu hyder ac annibyniaeth
- Y cyfranogwyr yn integreiddio mwy yn gymdeithasol
- Cyfranogwyr yn datblygu sgiliau newydd
- Rhai camau wedi'u cymryd tuag at ddatblygu sgiliau ar gyfer menter gymdeithasol, er bod hyfywedd hyn yn cael ei gwestiynu ynghyd â chynaliadwyedd hyn i gyfranogwyr y prosiect
- Bod dull partneriaeth wedi caniatáu i'r cyfranogwyr brofi amrywiaeth o weithgareddau.

Wrth symud ymlaen, pe byddai Dyma Ni yn ffurfio rhagor o bartneriaethau, gallai hynny gynnig cyfleoedd dysgu a datblygu estynedig i'r cyfranogwyr ond dylid gwneud hynny gyda llinellau cyfathrebu cryf â phawb sy'n ymwneud â'r prosiect a chyda chynlluniau clir mewn perthynas â rolau'r partneriaid. Mae'r prosiect hwn wedi tynnu sylw at yr angen am gynlluniau yn yr ardal sy'n cynorthwyo pobl ifanc anabl, a chred y staff bod lle i'r prosiect gael ei fabwysiadu mewn lleoliadau eraill.

I gloi'r adroddiad, cyflwynir rhai argymhellion ar gyfer cyflawni Dyma Ni ac ar gyfer cyflwyno'r prosiect yn ehangach i leoliadau eraill.

1 Cyflwyniad

Comisiynwyd Wavehill gan Gyngor Sir Ceredigion (ar ran Grŵp Gweithredu Lleol [Cynnal y Cardi](#)) i gynnal gwerthusiad annibynnol o Dyma Ni, a dyma destun yr adroddiad terfynol hwn.

Mae Cynnal y Cardi yn gynllun rhaglen [LEADER](#)¹ a ariannwyd drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Nod LEADER yw hwyluso a pheilota prosiectau arloesol sy'n cynyddu gwerth ac amrywiaeth cyfleoedd economaidd i bobl yng Ngheredigion. Gwnaeth Cynnal y Cardi ariannu prosiect Dyma Ni i dreialu dulliau newydd ac arloesol o ymgysylltu â phobl ifanc a'u hyfforddi er mwyn eu cynorthwyo i integreiddio'n gymdeithasol a'u helpu i ddatblygu eu sgiliau.

Ariannwyd Dyma Ni gan Cynnal y Cardi ar sail un flwyddyn o beilot o'r prosiect. Roedd yr arian hwn yn caniatáu i'r prosiect gyflawni dros ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae'r cyfnod ariannu hwn bellach wedi dod i ben; fodd bynnag, mae Dyma Ni yn ddiweddar wedi sicrhau arian ychwanegol gan y Loteri Genedlaethol i barhau i gyflawni'r prosiect hyd at fis Rhagfyr 2022.

Dechreuodd Dyma Ni fel prosiect cydweithredol rhwng RAY Ceredigion a Green Rocket Futures sy'n darparu gweithgareddau a chynlluniau datblygu sy'n canolbwyntio ar y person² ar gyfer hyd at 12 o bobl 17-30 oed sydd ag amryw anableddau. Gall y bobl ifanc gael eu hatgyfeirio i'r prosiect mewn sawl ffordd: drwy hunangyfeirio, atgyfeiriad gan riant neu ofalwr, atgyfeiriad gan sefydliad megis canolfan ddydd leol, neu fentrau ar gyfer pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) megis Gweithffyrdd neu Cam Nesa. Yn ychwanegol, roedd rhai o'r cyfranogwyr eisoes yn cael eu cynorthwyo gan RAY Ceredigion; yn yr achosion hyn, deuai'r atgyfeiriad yn uniongyrchol oddi mewn i'r sefydliad.

Elusen fach yw RAY Ceredigion sy'n darparu gweithgareddau a hyfforddiant i gynorthwyo'r gymuned leol. Menter sy'n cael ei rhedeg gan newyddiadurwr garddio lleol, Kim Stoddart, yw Green Rocket Futures, sy'n darparu gweithgareddau garddio ac awyr agored sy'n canolbwyntio ar y person ac a ddatblygwyd gan ystyried unigolion sydd ag awtistiaeth. Cyflawnwyd Dyma Ni yn y ddau safle gydag un diwrnod yr wythnos yn RAY Ceredigion ac un yn Green Rocket Futures.

Daeth y bartneriaeth rhwng RAY Ceredigion a Green Rocket Futures i ben ym mis Tachwedd 2019. Penderfyniad cyfeillgar oedd hwn dan arweiniad Green Rocket Futures. Caiff y rhesymau dros ddod â'r bartneriaeth i ben eu harchwilio ymhellach yn yr adroddiad hwn. Mae'r gwaith o gyflawni Dyma Ni ers hynny wedi parhau dros y ddau ddiwrnod, ond cafodd ei gyflawni gan RAY Ceredigion yn unig a hynny o'u cyfleusterau hwy yn Aberaeron.

¹ Dull datblygu gwledig yw LEADER sy'n seiliedig yn lleol ac sy'n cyflawni gweithgareddau sy'n cynorthwyo cymunedau gwledig.

² Mae dull sy'n canolbwyntio ar y person yn ffordd o gyflawni gwasanaethau sy'n ystyried defnyddwyr gwasanaeth yn bartneriaid cydradd ac sy'n eu cynnwys mewn penderfyniadau cynllunio i sicrhau bod y cymorth a gyflawnir yn diwallu eu hanghenion. Gallwch ddarllen mwy am ddulliau sy'n canolbwyntio ar y person [fan hyn](#).

Mae'r adroddiad terfynol hwn yn dilyn adroddiad canol tymor a oedd yn archwilio cyflawniad y prosiect, effeithiau cychwynnol ar gyfranogwyr, a chanfyddiadau allweddol er mwyn cyfarwyddo'r cyflawni wrth symud ymlaen. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn adeiladu ar yr adroddiad canol tymor ac yn ystyried y canlyniadau a'r effeithiau ar ôl cyflawni'r gweithgarwch yn ogystal â gwerth ychwanegol prosiect Dyma Ni. Bydd canfyddiadau a chasgliadau'r gwerthusiad yn darparu cyfres o argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cynnal ymyriadau tebyg yn y dyfodol ac ar gyfer parhau â phrosiect Dyma Ni. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cynnwys tair astudiaeth achos o brofiadau cyfranogwyr penodol.

Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil canlynol:

- Sut mae cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y person yn cael eu creu a pha mor effeithiol y buont o ran cyflawni rhyw lefel o ddatblygiad personol?
- A yw'r dull o gyflawni drwy bartneriaeth wedi gweithio a beth fu'r cryfderau a'r gwendidau allweddol?
- A archwiliwyd llwybrau at synergedd a chydweithredu â sefydliadau/partneriaid eraill i gryfhau'r prosiect?
- Pa fodolau cyflawni posibl y gellid eu gweithredu wrth symud ymlaen a sut gallai'r rhain fod yn gynaliadwy?
- A oes potensial i fodol y prosiect hwn gael ei gyflwyno'n ehangach i sefydliadau eraill yn y trydydd sector?
- Sut mae'r cyfranogwyr wedi elwa o'r ymyriad?

1.1 Cefndir

Daeth prosiect Dyma Ni i fod yn sgil canfyddiad o fwch mewn cymorth i bobl ifanc sydd ag anableddau yng Ngheredigion. Yn bresennol, pan fydd pobl ifanc sydd ag anableddau yn cyrraedd 18 oed, mae lleihad yn y cymorth sydd ar gael sy'n eu hwyluso i integreiddio'n gymdeithasol. Yng Ngheredigion, gall pobl ifanc gael eu cynorthwyo gan Goleg Ceredigion am ddim mwy na thair blynedd yn unig, ac ar ôl hynny gall pobl ifanc sydd ag anableddau eu cael eu hunain heb lawer o gyfleoedd i gymdeithasu ac integreiddio'n gymdeithasol wedi i'r cyfnodau hyn o gymorth gael eu tynnu ymaith. Gall hyn gael effeithiau sylweddol ar les pobl ifanc anabl, gan arwain at deimladau o gael eu heithrio, teimlo'n ynysig ac iselder. Gan ymateb i'r canfyddiad hwn o "ddibyn" o ran cymorth sy'n wynebu oedolion ifanc anabl, aeth Dyma Ni (gyda RAY Ceredigion) ati i beilota rhaglen arloesol i bobl ifanc sydd ag anableddau sydd wedi cwblhau neu ar fin cwblhau eu haddysg amser llawn.

1.1.1 Rhywfaint o Gyd-destun

Mae teimlo'n ynysig yn fater allweddol ymysg pobl ifanc sy'n byw ag anableddau. Yn wir, yn ôl gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan Mencap, mae bron i un ym mhob tri o bobl ifanc sydd ag anabledd dysgu yn gwario llai nag un awr y tu allan i'w cartref ar ddydd Sadwrn arferol, a nododd 18% o'r ymatebwyr nad ydynt yn treulio llawer o amser gyda phobl eraill a'u bod yn teimlo ar eu pen eu hunain ac wedi'u torri ymaith oddi wrth bobl eraill³. Mae Sense yn nodi bod bron i hanner o bobl anabl yn teimlo'n unig⁴. Fel a amlinellir yn yr wybodaeth gefndir uchod, mae'r materion hyn yn destun pryder penodol yng Ngheredigion, lle mae'r cyfleoedd yn gyfyngedig i bobl ifanc anabl gymdeithasu ar ôl i'w haddysg ffurfiol ddod i ben.

Mae nifer o ffactorau sy'n sail i lefelau uchel o deimlo'n ynysig ymysg pobl anabl, gan gynnwys diffyg mynediad at wasanaethau, heriau yn ymwneud â hygyrchedd (a all gyfyngu ar fynediad unigolion i gludiant a lleoliadau), a heriau ariannol⁵. Pan nad yw unigolyn mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gallai hyn olygu eu bod yn wynebu risg bellach o brofi arwahanrwydd, ac mae pobl sy'n byw ag anableddau yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith. Yn 2019, er enghraifft, y gyfradd gyflogaeth ymysg pobl ag anableddau oedd 51.7%, o gymharu ag 81.7% ymysg pobl heb anableddau⁶. Ymhellach, gall diweithdra arwain at bobl ifanc yn teimlo'n ynysig, a phrofi anawsterau iechyd meddwl a llai o hyder⁷.

Yn y cyd-destun hwn, mae prosiectau fel Dyma Ni yn cynnig cyfle cyffrous i leihau lefelau o deimlo'n ynysig ymysg pobl ifanc anabl, adeiladu hyder cymdeithasol a'u hwyluso i ddatblygu sgiliau i ddod â phobl ifanc anabl yn agosach i'r farchnad lafur. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried canfyddiadau peilot y prosiect hwn ar gam canol tymor ei gyflawni.

1.1.2 Dull LEADER

Mae LEADER yn ddull datblygu lleol sy'n ceisio cynnwys gweithredwyr lleol yn y gwaith o ddatblygu eu hardaloedd gwledig. Mae'n fenter Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned ac fe'i dyluniwyd i ymgysylltu â chymunedau lleol a'u grymuso i ymgymryd â'u datblygu lleol eu hunain.

Yng Ngheredigion, caiff LEADER ei weithredu gan Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi, a Chyngor Sir Ceredigion sy'n goruchwylio'r gweithrediadau gweinyddol ac ariannol ar eu rhan. Caiff Cynnal y Cardi ei ariannu drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

³ Mencap, 2016. *Learning Disability Week highlights isolation faced by young people with a learning disability*. <https://www.mencap.org.uk/press-release/learning-disability-week-highlights-isolation-faced-young-people-learning-disability>

⁴ Sense, 2019. *Loneliness*. <https://www.sense.org.uk/support-us/campaigns/loneliness/>

⁵ Olsen, J., 2018. Socially disabled: the fight disabled people face against loneliness and stress. *Disability & Society*, 33(7), tt. 1160-1164.

⁶ Powell, A., 2019. *People with disabilities in employment*, Llundain: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

⁷ Prince's Trust, 2015. *The Prince's Trust Macquarie Youth Index 2015*, s.l.: Prince's Trust.

Mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn dylunio a gweithredu eu Strategaeth Datblygu Lleol. Mae rhai o agweddau allweddol LEADER yn cynnwys: datblygu a pheilota prosiectau arloesol sy'n ceisio annog dulliau ac atebion newydd ac arloesol i faterion lleol, annog cydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol, gweithio i rymuso pobl a sefydliadau lleol i fanteisio ar gyfleoedd datblygu, a gweithio'n uniongyrchol â'r boblogaeth leol.

Ariannwyd Dyma Ni gan Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi, wrth iddo geisio peilota dull newydd ac arloesol o ymgysylltu â phobl ifanc anabl a'u hyfforddi, gan gynnwys datblygu sgiliau ac integreiddio cymdeithasol drwy ddull sy'n canolbwyntio ar y person.

1.2 Dulliau Ymchwil

Gan adeiladu ar y gwaith ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad canol tymor, defnyddiodd y tîm ymchwil ddulliau amrywiol i gynhyrchu data ansoddol cyfoethog i ymateb i'r cwestiynau ymchwil. Mae'r dull hwn wedi cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn darparu darlun datblygedig o effaith Dyma Ni ar y bobl ifanc y mae'n eu cynorthwyo. Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Cynhaliodd y tîm ymchwil gyfres o gyfweiliadau ffôn a fideo un-i-un gyda staff a oedd yn ymwneud â'r cyflawni er mwyn deall canlyniadau ac effeithiau prosiect Dyma Ni, gan gynnwys y gwerth ychwanegol a'r potensial i ddull cyflawni'r prosiect gael ei efelychu mewn mannau eraill (n=3).
- Cynhaliodd y tîm ymchwil gyfres o gyfweiliadau ffôn un-i-un gyda theuluoedd, gweithwyr cymorth, ac eraill sy'n gofalu. Roedd y cyfweiliadau hyn yn asesu effeithiau a chanlyniadau cynnwys y cyfranogwyr yn Dyma Ni, yn ogystal â bod yn sail i'r astudiaethau achos (n=7).

1.2.1 Cyfyngiadau

Mae maint prosiect ar y raddfa hon yn cyflwyno heriau penodol wrth sicrhau cyfrinachedd i'r cyfranogwyr, gan arwain at heriau wrth gasglu'r data. Gallai nifer fach y cyfranogwyr ddylanwadu ar y canfyddiadau. Yn benodol, gallai fod pryderon ynglŷn â'r gallu i'w hadnabod, a all arwain at rywfaint o hunan-sensro. Gallai hyn fod wedi atal y tîm gwerthuso rhag gallu casglu adborth mwy adeiladol.

Mae'n bwysig nodi bod pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig wedi cael effaith ar gyflawniad y prosiect ac ar gasglu data ymchwil. Yn gyntaf, ataliwyd cyflawniad Dyma Ni pan gyhoeddwyd y cyfyngiadau symud cenedlaethol ar 23 Mawrth 2020. Ni ailgychwynwyd ar gyflawni'r prosiect hyd nes mis Medi 2020. Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, ymgymrodd staff y prosiect â nifer o fentrau er mwyn cynnal cyswllt â'r cyfranogwyr, a chaiff hyn ei drafod ymhellach yn yr adroddiad hwn. Ataliwyd cyflawniad Dyma Ni unwaith eto yn ystod y cyfnod atal byr o 17 diwrnod yn niwedd mis Hydref 2020.

Yn sgil cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol, nid oedd y fethodoleg ymchwil ar gyfer y cyfnod terfynol yn cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb nac ymweliadau pellach â phrosiect Dyma Ni. O ganlyniad i hyn, roedd y gwaith o gasglu data yn canolbwyntio ar gyfweiliadau â staff y prosiect ac â rhieni a gofalwyr y cyfranogwyr. Am resymau diogelwch, cynhaliwyd pob cyfweiliad naill ai dros y ffôn neu drwy alwadau fideo ar-lein.

Fel rhan o ddyluniad yr ymchwil, y bwriad oedd rhoi ystyriaeth i farn ar gyflawniad y prosiect gan dîm y prosiect yn gyfan; fodd bynnag, cododd heriau yn ymwneud â chysylltu ac a oedd staff y prosiect ar gael i gymryd rhan yn yr ymchwil, o bosibl am i'r cyfnod atal byr ddigwydd yn ystod y cyfnod o gasglu data. Mae hyn wedi arwain at ychydig o dangynrychioli staff yn y gwerthusiad hwn, a rhoddwyd ystyriaeth i hynny yn y drafodaeth sy'n dilyn.

2 Canfyddiadau Allweddol: Rheoli a Chyflawni'r Prosiect

Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau allweddol yr adolygiad terfynol o Dyma Ni ac yn ystyried pob un o'r cwestiynau ymchwil a nodwyd uchod. Mae'r adran hon yn edrych yn bennaf ar ddata cyfweiliadau â staff (n=3) ynghyd â chyfweiliadau â rhieni a gofalwyr (n=7).

Crynodeb o'r adran

- Ystyriwyd bod y cynlluniau a'r dulliau sy'n canolbwyntio ar y person a ddefnyddiwyd fel rhan o Dyma Ni yn allweddol i'w lwyddiant.
- Er na fu i'r bartneriaeth â GRF fod yn llwyddiannus yn y pen draw, y mae potensial i bartneriaethau yn y dyfodol ychwanegu amrywiaeth i'r prosiect.
- Dylai unrhyw waith partneriaeth yn y dyfodol gynnwys cyfathrebu'n aml ac effeithiol i sicrhau synergedd yn y prosiect.
- Teimlai'r staff y gallai'r prosiect cyfan neu agweddau ar Dyma Ni fod yn drosglwyddadwy, ond ychwanegwyd pwyslais ar gysondeb y cyflawni ac ar ddibyniaeth bosibl ar gyllid.

2.1 Sut mae cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y person yn cael eu creu a pha mor effeithiol y buont o ran cyflawni rhyw lefel o ddatblygiad personol?

Cafodd y cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y person eu hintegreiddio o ddechrau'r prosiect, wrth i'r cyfranogwyr greu portreadau o'u hunain ac ystyried sgiliau a gweithgareddau gyda staff ar sail un-i-un er mwyn deall pa weithgareddau y byddent yn eu mwynhau. Wedi hynny, ymgwymerodd y cyfranogwyr â dau floc o sesiynau blasu dros gyfnodau o 10 wythnos er mwyn ymdrochi mewn amrywiaeth o weithgareddau i ganiatáu iddynt ganfod beth roeddynt eisiau parhau ag ef a pha weithgareddau nad ydynt o lawer o ddiddordeb, yn ogystal ag i adolygu unrhyw gynnydd a wnaed. Nododd un aelod o staff lwyddiant y dull hwn:

'Mae gan y staff wybodaeth dda iawn o'r hyn mae pob person ifanc yn ei hoffi, beth nad ydynt yn ei hoffi, beth maent yn gyfforddus ag ef, sut gallant ymdopi a rheoli'u hunain, beth allai eu gwneud yn bryderus. Mae wedi helpu'r staff i gofnodi gwybodaeth fanwl ar gyfer pob person ifanc. Ac wedyn mae wedi helpu staff y prosiect i gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol er mwyn deall sut gallai pob person ifanc fod yn teimlo, a theilwra'r sesiynau ar eu cyfer.' (Cyfweiliad â Staff)

Roedd ystyried anghenion y cyfranogwyr yn barhaus yn caniatáu i'r staff ganolbwyntio ar weithgareddau penodol, a datblygu'r posibilrwydd i gyfranogwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau a diwallu eu hanghenion yn y gweithgareddau yma. Yn aml, caiff prif weithgaredd ei gynnal ochr yn ochr â gweithgaredd ychwanegol er mwyn cynnig dewis i'r cyfranogwyr sy'n fwyaf addas i'w diddordebau. Mae gallu Dyma Ni i ddiwallu anghenion pob cyfranogwr yn un o gryfderau allweddol y model cyflawni hwn. Mae hyn wedi helpu i gynnal ymgysylltiad y cyfranogwyr a sicrhau bod y gweithgareddau yn fuddiol ac ystyrion i'r bobl ifanc.

Nododd y staff cyflawni eu bod yn gwneud cynlluniau gweithgarwch misol gyda'i gilydd ac yn defnyddio "fframwaith llac" i arwain y gweithgareddau sy'n cael eu cynnig ym mhob sesiwn. Roedd gweithgareddau'r prosiect y gwnaethant eu nodi yn dueddol o fod yn y categorïau canlynol:

- Datblygu sgiliau echddygol
- Cydsymud rhwng y dwylo a'r llygaid
- Adeiladu hyder
- Cael hwyl.

Pwysleisiai staff y prosiect fod angen i'r cynlluniau fod o natur lac am fod angen hyblygrwydd wrth ddarparu ar gyfer y grŵp ac er mwyn i'r gweithgareddau gael eu harwain gan y grŵp. Meddai un aelod o staff:

'Mae wedi bod yn hyblyg iawn ac wedi'i arwain gan y grŵp, felly ar rai diwrnodau rwy'n dod i mewn gyda fy nghynllun ac mae hynny'n para dwy eiliad ac wedyn rydyn ni'n gwneud rhywbeth gwahanol am mai dyna sydd ei angen ar y grŵp.' (Cyfweiliad â Staff)

O ganlyniad i'r arbenigedd yma a'r gallu i addasu yn unol ag anghenion y cyfranogwyr, mae llawer wedi datblygu amrywiaeth o sgiliau newydd ac wedi cael cyflawniadau cadarnhaol. Yn ychwanegol, nodwyd bod cyfranogwyr wedi dangos twf yn eu hyder a'u hannibyniaeth o ganlyniad i Dyma Ni. Wrth drafod llwyddiant y cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y person, nododd un aelod o staff:

'Mantais y dull yma yw ei fod yn ymatebol iawn i anghenion a diddordebau'r unigolyn. Mae hyn i'w weld yn y grŵp. Mae'n gyfforddus iawn. Mae pob person ifanc yn hyderus yn y grŵp. Maen nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael cefnogaeth fawr. Mae hynny o ganlyniad i'r dull yma.' (Cyfweiliad â Staff)

Nodwyd yn y cyfweiliadau â rhieni a gofalwyr bod atal y prosiect yn ystod cyfnod cyfyngiadau symud COVID-19 wedi effeithio ar ddatblygu portffolios i'r cyfranogwyr:

'Yn anffodus i'r grŵp, yr adeg pan fyddai'r portffolio wedi dod at ei gilydd fyddai yn ystod cyfnod cyntaf y cyfyngiadau symud.' (Cyfweiliad â Rhiant/Gofalwr)

Fodd bynnag, bu staff y prosiect yn gweithio ar y rhain yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud a sicrhau eu bod ar gael i'r cyfranogwyr. Canolbwyntiai'r portffolios hyn ar agweddau ar bersonoliaeth y cyfranogwyr, pethau y maent yn eu mwynhau, sgiliau newydd a ddatblygwyd, a chyflawniadau. Ymhellach, roedd y portffolios yn nodi cysylltiadau â gweithgareddau mentrau cymdeithasol posibl y gallai'r cyfranogwyr ymwneud â hwy. Caiff y rhain eu dangos wrth ochr yr amryw ffotograffau o'r cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda Dyma Ni, gan olygu bod cynnwys y portffolios yn hygyrch i'r cyfranogwyr ac i'w rhieni a'u gofalwyr. Dyma sut y gwnaeth un aelod o staff ddisgrifio'r portffolios:

'Pan ddaeth y cyfyngiadau symud, fe wnaethom ni ysgrifennu astudiaethau achos (i bob person ifanc) yn canolbwyntio ar y cryfderau a sut allen nhw ddatblygu'r rheiny, a'r rhan olaf yn edrych ar unrhyw sgiliau a diddordebau sydd ganddyn nhw sy'n gysylltiedig â menter gymdeithasol. Fe wnaethon nhw greu llyfryn personol i bob person.' (Cyfweiliad â Staff)

Fodd bynnag, roedd y cyfweiliadau â rhieni a gofalwyr yn aml yn mynegi diffyg gwybodaeth o'r portffolios neu'r cynlluniau datblygu yma, fel y mae'r dyfyniad canlynol yn dangos:

'Dydw'n nhw ddim wir yn gosod targedau na nodau i'r unigolion. Mae'n ymddangos eu bod nhw'n mynd a siarad a gwneud gweithgareddau ond does dim nodau'n cael eu gosod. Pe bydden nhw'n gwneud hynny i'w helpu i'w rhoi ar ben ffordd yn y byd mawr, ond dydw i ddim yn gwybod a fyddai pawb yn ei wneud. Byddai'n dda pe byddai ganddyn nhw gynllun gweithredu i'w helpu yn y dyfodol.' (Cyfweiliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 1)

Er nad yw hyn yn fater arbennig o bryderus, gellid mynd i'r afael ag ef yn y prosiect yn y dyfodol, gan gyfathrebu mwy â theuluoedd a gofalwyr ynglŷn â datblygiad y person ifanc oddi mewn i Dyma Ni er mwyn iddynt, o bosib, gael eu cefnogi ymhellach yn amgylchedd y cartref. Fodd bynnag, nododd un aelod o staff fod pob un o'r cyfranogwyr yn oedolion ac na allent eu gorfodi i wneud unrhyw beth nad oeddent eisiau gwneud, a bod angen parchu eu dewisiadau o ran y pethau a wnânt. Yn hytrach, roeddynt yn pwysleisio bod hyder yn agwedd allweddol ar gyflawni ac mai canolbwyntio ar ddatblygu hynny a wneir yn bennaf drwy sesiynau'r prosiect.

Caiff canlyniadau a chymhwyso sgiliau eu trafod yn adran 3.

2.2 A yw'r dull o gyflawni drwy bartneriaeth wedi gweithio a beth fu'r cryfderau a'r gwendidau allweddol?

Caiff y cwestiwn hwn ei ystyried yn yr adroddiad hwn yng ngoleuni'r newid yn yr amgylchiadau mewn perthynas â'r ffaith i'r bartneriaeth rhwng RAY Ceredigion a Green Rocket Futures ddirwyn i ben. Y gobaith yw y bydd hyn yn cynnig dealltwriaeth o'r amgylchiadau dan sylw ac yn myfyrio ar y newidiadau i'r prosiect.

Fel a nodwyd yn adran 1, daeth y bartneriaeth rhwng RAY Ceredigion a Green Rocket Futures i ben ym mis Tachwedd 2019. Ers hynny, cafodd y prosiect ei gyflawni gan RAY Ceredigion yn unig.

Cryfderau Dull Partneriaeth

Roedd y staff cyflawni yn gadarnhaol ynglŷn â'r bartneriaeth rhwng RAY Ceredigion a Green Rocket Futures. Un cryfder allweddol oedd bod y ddau sefydliad yn cydweithio tra'n sefydlu'r prosiect. Roedd y lefel hon o ymgysylltiad o'r dechrau yn sicrhau bod y ddau sefydliad yn glir ynglŷn â nodau'r prosiect ac yn amlwg yn ymrwymedig iddo.

Roedd y partneriaid hefyd yn cynnig agweddau gwahanol i'r prosiect ac roedd rhannu'r llafur fel yma — un diwrnod yn GRF ac un yn RAY Ceredigion — yn cynnig cyfle i'r cyfranogwyr gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Drwy'r bartneriaeth, roedd modd cynnig arbenigedd ychwanegol mewn meysydd arbenigol, sef addysg awyr agored yn y cyd-destun yma.

Roedd GRF hefyd yn cynnig gofod awyr agored y gallai'r prosiect weithredu ynddo ynghyd ag adnoddau addas i gynorthwyo'r amgylchedd dysgu, er i'r diffyg gofod dan do yn y lleoliad fod yn broblemus pan fyddai'r tywydd yn wlyb ac oer. Ar y llaw arall, mae diffyg gofod awyr agored yng nghanolfan RAY Ceredigion yn Aberaeron. Roedd y cydbwysedd hwn yn gweithio tra'r oedd y bartneriaeth yn weithredol, gan fod modd i'r naill bartner a'r llall gynnig agweddau penodol yn eu safle hwy.

Cryfder arall y bartneriaeth oedd ymroddiad staff ar draws y bartneriaeth i gynnig cymorth i bobl ifanc anabl, yn ogystal â chred yn nodau'r prosiect. Roedd staff yn y ddau safle yn defnyddio gweithgareddau wedi'u teilwra i weithio gyda galluoedd y bartneriaeth a bodloni'u diddordebau.

Gwendidau Dull Partneriaeth

Priodolwyd dirywiad y bartneriaeth i diffyg cyfathrebu rhwng y ddau bartner mewn perthynas ag agweddau ar gyflenwi, ac themlai GRF yn rhwystredig ynglŷn â'r hyn y gallai gynnig yn sgil gwahaniaethau mewn ymagwedd. Nododd y staff fel a ganlyn:

'Ar adegau, roedd ymagweddau gwahanol at ddweud y gair "therapiwtig". Weithiau rwy'n meddwl bod yna safbwyntiau gwahanol ar sut i gynorthwyo'r bobl ifanc, ond nid wy'n credu iddo erioed effeithio ar gyflawni'r prosiect.' (Cyfweliad â Staff)

'Rwy'n credu bod [GRF a RAY Ceredigion] ar dudalennau gwahanol... sa i'n gwybod. Yn sylfaenol, rwy'n credu mai gwahaniaeth mewn ymagwedd oedd e, a beth oedd pobl yn meddwl oedd diben y prosiect.' (Cyfweliad â Staff)

Yn dilyn hyn, meddai'r staff eu bod yn teimlo, pe byddai'r bartneriaeth wedi parhau, y byddai angen cynnal trafodaeth rhwng y partneriaid er mwyn cael eglurder ar sut roeddynt yn cynorthwyo'r bobl ifanc sy'n rhan o Dyma Ni. Er bod gwahaniaeth mewn ymagweddau, nododd y staff nad oeddynt yn teimlo bod hyn wedi effeithio'n negyddol ar y cyfranogwyr, y gweithgareddau a gynigwyd na'r gofal a dderbyniwyd.

Credwyd i'r bartneriaeth fynd yn llai deinamig wrth i'r prosiect fynd rhagddo, a themlai GRF nad oedd modd iddynt ganolbwyntio ar agweddau ar sgiliau entrepreneuriaidd a llwybrau i

gyflogaeth yn eu darpariaeth i'r cyfranogwyr. Teimlwyd bod hyn yn ffordd a oedd yn lleihau datblygiad y prosiect ac yn gadael meysydd heb eu harchwilio. Ymhellach, nododd un aelod o staff wahaniaeth yn y ffyrdd y mae'r partneriaid yn gweithio, gan gyfeirio at wahaniaeth at RAY Ceredigion fel elusen a GRF fel menter gymdeithasol a busnes. Unwaith eto, roedd hyn yn effeithio ar y canfyddiad na allai GRF gyflawni Dyma Ni fel yr oedd wedi credu y byddai'n ofynnol:

'Roedd y bartneriaeth yn her... Mae ffordd [GRF] o weithio yn wahanol iawn i elusen. Yn y pen draw, nid oedd gan [GRF] ymreolaeth.' (Cyfweliad â Staff)

Gwersi Allweddol ar Ddull Partneriaeth

Y brif wers o'r dull partneriaeth yw'r angen am gyfathrebu da rhwng y partneriaid. Mae angen cyfathrebu o'r fath i sicrhau lefel effeithiol o ddealltwriaeth a chysondeb o ran ymagwedd ar draws y prosiect. Nododd un aelod o staff:

'Petaen ni wedi parhau, fe fyddem ni wedi gofyn am gyfarfod i siarad... a llunio cynllun i wneud yn siŵr ein bod ni i gyd yn gyfforddus â sut rydyn ni'n gweithio.' (Cyfweliad â Staff)

Gallai cyfathrebu'n fwy effeithiol fod wedi bod o gymorth i'r bartneriaeth o ran creu synergedd rhwng RAY Ceredigion a GRF, gan lyfnhau gwahaniaethau o ran ymagweddau ac i GRF ehangu'r cyflawni.

Gall defnyddio dull partneriaeth gynnig arbenigedd ychwanegol a chaniatáu i brosiectau fod yn fwy amrywiol. Mae hyn wedi caniatáu i Dyma Ni gynnig amrywiaeth o weithgareddau i'w cyfranogwyr sydd wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd, gwneud cynnydd yn eu datblygiad, a chreu gwell dealltwriaeth o weithgareddau y maent eisiau eu gwneud a'u datblygu.

Yn olaf, roedd integreiddio'r ddau brosiect ar ddechrau'r broses ddatblygu a chyllido wedi sicrhau bod gan y ddau sefydliad ddealltwriaeth dda o'r hyn y byddai'r prosiect yn ei gyflawni, er gwaethaf y trafferthion ynglŷn â chysyniadau wrth fynd at i gyflawni. Roedd yr holl staff yn nodi agweddau cadarnhaol y prosiect a sut y cafodd ei gyflawni, yn ogystal â'r canlyniadau a arsylwyd ymysg y cyfranogwyr.

2.3 A archwiliwyd llwybrau at synergedd a chydweithredu â sefydliadau/partneriaid eraill i gryfhau'r prosiect?

Hyd yma, partneriaeth rhwng RAY Ceredigion a Green Rocket Futures yn unig fu Dyma Ni. Gallai hyn gael ei briodoli'n rhannol i effaith COVID-19 ar hygyrchedd ac ymarferoldeb sefydlu partneriaethau yn y cyfnod hwn. Nid oedd awgrym yn ystod cyfnod yr adroddiad terfynol bod y grŵp llywio'n fecanwaith effeithiol ar gyfer cydweithio neu gymorth ar gyfer y prosiect.

Nododd staff y prosiect yn RAY Ceredigion, am i'r bartneriaeth â Green Rocket Futures ddod i ben, eu bod wedi cael cynnig defnyddio gofod mewn gerddi lleol i'w drin gan grŵp Dyma Ni.

Serch hynny, meddai'r staff na ddaeth hyn at ei gilydd hyd yma am i COVID-19 atal y cynlluniau am y tro.

Bu cyfle i gyfranogwyr Dyma Ni gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill a drefnwyd gan RAY Ceredigion, a nododd staff y prosiect fod y clwb coginio, a oedd yn cyflenwi cinio i glwb dementia Forget Me Not, bellach yn weithgaredd yr oedd llawer o gyfranogwyr Dyma Ni yn ymwneud ag ef. Roedd hyn yn adeiladu ar sgiliau coginio'r cyfranogwyr a ddatblygwyd yn y prosiect, yn ogystal â sgiliau pellach fel gweini bwyd. Fodd bynnag, nododd y staff fod y gweithgaredd hwn wedi'i atal am y tro am resymau diogelwch yn sgil cyfyngiadau COVID-19.

Ymhellach, mynegodd staff y prosiect eu bod yn gobeithio sicrhau partneriaethau lleol i ganiatáu i'r crefftau a'r cynnyrch coginio a gynhyrchwyd yn Dyma Ni gael eu gwerthu yn yr ardal leol, gan helpu i sefydlu menter gymdeithasol o Dyma Ni. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cyllid ychwanegol er mwyn i Dyma Ni gefnogi ei weithgareddau yn y dyfodol. Meddai un aelod o staff mai rhan o'r cynllun oedd:

'dros amser, gweithio gyda'r bobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau fel ein bod ni'n cynhyrchu gwaith coed, cacennau, crefftau ac ati yn rheolaidd, ac edrych am ffyrdd i greu arian o hynny, boed ar-lein neu siopau lleol. Dyna fyddem ni'n hoffi ei wneud. Fe hoffem ni gael cytundeb ysgrifenedig bod unrhyw arian sy'n cael ei wneud o hynny yn mynd yn ôl i mewn i'r prosiect.'
(Cyfweliad â Staff)

Y prif her sy'n wynebu Dyma Ni o ran sefydlu partneriaethau yw effaith pandemig COVID-19. Mae hyn wedi lleihau gallu'r prosiect i ffurfio partneriaethau ac wedi lleihau sefydlogrwydd yr amgylchedd o ran ffurfio partneriaethau cynaliadwy. Hefyd, am i weithgareddau'r grŵp gael eu hatal am bron i chwe mis, mae'n golygu nad oedd modd gwneud cynnydd o ran y cyfranogwyr yn cynhyrchu eitemau i'w gwerthu, gan effeithio ar ymdrechion i greu menter gymdeithasol.

Yn yr adroddiad canol tymor, nododd rhanddeiliaid y gallai ymestyn allan at nifer o grwpiau lleol fod o fudd i'r prosiect, yn benodol Pobl yn Gyntaf Ceredigion, Mind Aberystwyth, a Cheredigion Hafal. Hefyd, awgrymwyd y gallai gweithio gyda darparwyr cludiant lleol, er enghraifft, helpu i gynyddu hygyrchedd y prosiect a chynorthwyo i'r cyfranogwyr deithio'n annibynnol. Ni chafwyd awgrym yn y cyfweliadau â'r staff cyflenwi y ceisiwyd sefydlu'r math yma o bartneriaethau nac yr ymchwiliwyd iddynt. Gallai hyn fod am nad oeddynt wedi sôn amdanynt yn y cyfweliadau neu am nad oedd yr ymgynghori wedi digwydd. Ymhellach, mae'n bwysig ystyried y gallai COVID-19, unwaith eto, fod wedi effeithio ar ymdrechion y prosiect i ffurfio'r partneriaethau yma.

2.4 Pa fodolau cyflawni posibl y gellid eu gweithredu wrth symud ymlaen a sut gallai'r rhain fod yn gynaliadwy?

Llwyddiannau a Heriau'r Model Cyflawni

Bu'r dull o ganolbwyntio ar y person yn agwedd allweddol ar lwyddiant Dyma Ni, gan ganiatáu i'r gweithgareddau gael eu teilwra yn ôl diddordebau'r cyfranogwyr. Mae hyn wedi helpu i gynnal sylw'r cyfranogwyr a datblygu ymhellach y meysydd hynny y nodwyd eu bod o ddiddordeb iddynt. Yn ychwanegol, mae gweithio gyda'r cyfranogwyr i gael eu mewnbwn hwy yn cynnig synnwyr o gael eu grymuso ac yn sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn ystyrlon yn hytrach na'u bod yn docynistaidd, sy'n helpu i sicrhau bod y canlyniadau yn sgiliau ymarferol a'u bod o ddefnydd i'r cyfranogwyr. Mynegodd un aelod o staff mai diben y dull yma oedd:

'rhoi cred iddynt. Mae gan bawb y gallu i wneud pethau... Os ewch chi i mewn â'r ffordd yna o gredu, fe wnân nhw gredu y gallan nhw ei wneud e. Mae hynny'n gyffredinol, nid y sawl sydd ag anableddau dysgu yn unig.'
(Cyfweliad â Staff)

Er i'r bartneriaeth rhwng Dyma Ni a GRF ddod i ben, mae gweithio gyda chorff arall i gyflawni'r gweithgareddau wedi bod o fudd i'r prosiect a dylid ystyried hyn ar gyfer cyflawni prosiectau tebyg. Fodd bynnag, mae angen i waith partneriaeth gael ei integreiddio yn y ddau sefydliad, gan sicrhau bod arweiniad clir a llwybrau cyfathrebu clir i'r naill bartner a'r llall. Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw anghysondeb o ran ymagweddau a bydd yn lleihau'r risg bod y bartneriaeth yn dod i ben.

Un agwedd allweddol ar gyflawni Dyma Ni oedd y gallu i gynnis gwasanaeth cyson i'r rhai a oedd yn ymwneud â'r prosiect, a hynny ar ffurf staff a safle RAY Ceredigion. Mae hyn wedi helpu i greu sefydlogrwydd i'r cyfranogwyr a chaniatáu perthnasoedd i gael eu sefydlu. Mae'r lefel hon o gysondeb yn hanfodol i'r cyfranogwyr hynny sydd ar y sbectrwm ac yn darparu amgylchedd sefydlog i bawb sy'n ymwneud â'r prosiect. Yn ychwanegol, mae ymroddiad staff Dyma Ni i gyflawni'r prosiect ac i ofal y cyfranogwyr yn agwedd arall a arweiniodd at lwyddiant y prosiect hwn.

Cynaliadwyedd y Prosiect

Derbyniodd y prosiect gyllid y tu hwnt i gyllid Cynnal y Cardi oddi wrth y Loteri Genedlaethol. Bydd y cyllid hwn yn caniatáu i'r prosiect gael ei gynnal wrth symud ymlaen — er mai ar sail unwaith yr wythnos fydd hynny — hyd at fis Rhagfyr 2022. Nododd tîm cyflawni'r prosiect eu bod yn gwneud ceisiadau i ffynonellau cyllid eraill i gynnal y prosiect am ddau ddiwrnod ac i olygu ei fod yn brosiect tymor hir.

Yn ychwanegol, y gobaith yn nhîm y prosiect yw y bydd creu menter gymdeithasol — ar ffurf caffi i gyfranogwyr Dyma Ni weithio ynddo neu werthu'r crefftau a gaiff eu creu yn y prosiect — yn helpu i fwydo arian yn ôl i mewn i'r prosiect a hybu cynaliadwyedd y grŵp.

Fodd bynnag, y mae'n ymddangos yn glir y bydd parhad y prosiect yn dibynnu ar ryw fath o gyllid, gan olygu bod Dyma Ni yn agored i risgiau ac ansefydlogrwydd pellach. Mynegodd un

aelod o staff bryderon ynglŷn â staffio'r prosiect (o ystyried y sefyllfa gyllido bresennol), gan awgrymu y gallai aelodau'r staff fynd ati i chwilio am swyddi gwahanol pe byddai'r prosiect yn cael ei leihau i un diwrnod yr wythnos:

'Nid yw [Dyma Ni] eisiau colli staff y prosiect a phe byddai eu swyddi yn mynd i lawr i un diwrnod yr wythnos, efallai y byddwn ni.' (Cyfweiliad â Staff)

Gallai hyn fod yn niweidiol i gyfranogwyr Dyma Ni a oedd wedi ffurfio perthnasoedd â'r staff ac a oedd yn gwerthfawrogi cysondeb. Hefyd, byddai hyn yn golled o ran cyflawni'r prosiect yn effeithiol a'r wybodaeth sydd gan y staff bresennol am y cyfranogwyr.

Nododd un aelod o staff mai un agwedd bwysig i'w hystyried wrth symud ymlaen yw ehangu i gynorthwyo teuluoedd pobl ifanc anabl. Yn adran 3, rydym yn trafod materion ynglŷn â Dyma Ni'n cynnig gofal seibiant (fel a nodwyd gan rieni a gofalwyr); fodd bynnag, teimlai un aelod o staff bod potensial i ehangu cyrhaeddiad y prosiect i gynnwys teuluoedd drwy gyfrwng cynllun datblygu personol 360. Teimlent y byddai hyn yn cynnig agwedd mwy holistaidd ar ofal a chyfoethogi'r cymorth ac yn ceisio mynd i'r afael â materion iechyd meddwl a all fod yn gyffredin ymysg teuluoedd pobl anabl:

'Nid pobl ifanc yn unig sydd angen help — mae angen helpu'r teulu hefyd ... doedden ni ddim yn gwybod hynny pan wnaeth y prosiect gychwyn. Mae gan lawer o deuluoedd sydd â phlant anabl faterion iechyd meddwl... materion eraill sy'n chwarae eu rhan. Rwy wedi clywed hyn gan ddarparwyr eraill hefyd. Angen edrych ar ymagwedd gydgysylltiedig.' (Cyfweiliad â Staff)

Yn olaf, y mae wedi'i nodi bod angen gwell cyfathrebu rhwng partneriaid; fodd bynnag, gallai gwell llinellau cyfathrebu gael eu sefydlu rhwng tîm Dyma Ni. Cafodd hyn ei nodi ar sail y canfyddiad o ddiffyg gwybodaeth oddi mewn i'r tîm ynglŷn â dyfodol, cynaliadwyedd a chyflawniad y prosiect, gan awgrymu bod angen a chyfle i rannu diweddariadau a chynnydd y prosiect gyda phawb sy'n ymwneud â Dyma Ni.

2.5 A oes potensial i fodel y prosiect hwn gael ei gyflwyno'n ehangach i sefydliadau eraill yn y trydydd sector?

Teimlai tîm y prosiect yn gadarnhaol bod llawer o elfennau o Dyma Ni y gellid eu hefelychu mewn safleoedd a lleoliadau eraill. Roedd y prif elfennau a nodwyd yn ymwneud â llwyddiant y dull cyflawni, tîm y prosiect, ac agweddau'r prosiect a ganolbwyntiai ar y person.

Fodd bynnag, nododd staff y prosiect fod Dyma Ni wedi elwa o leoliad sefydlog ac sydd, ar y cyfan, yn addas, er mwyn i'r grŵp gyfarfod. Roedd hyn yn fantais o ran cysondeb i'r grŵp yn ogystal ag o ran costau; byddai seilwaith, felly, yn ystyriaeth yn y modd y byddai modd cymhwyso'r prosiect mewn manau eraill. Ymhellach, nodwyd bod cysondeb ac ymroddiad y staff cyflawni yn fuddiol i'r prosiect, am eu bod yn caniatáu i'r cyfranogwyr adeiladu perthnasoedd ystyrlon â'r staff a lleihau aflonyddwch yn sgil newidiadau rheolaidd i'r staff (fel y nodwyd a ddigwyddai mewn darpariaethau gofal eraill i bobl ifanc, a fyddai'n aml yn rhwystro datblygiad a chyflawniadau'r cyfranogwyr).

O ran cyflawni gwahanol agweddau — garddio awyr agored a gweithgareddau mwy traddodiadol — y prosiect, y prif beth a ddysgwyd o hyn oedd yr angen am ofodau addas eraill dan do ar gyfer y gweithgareddau hyn, pe byddai eu hangen. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo'r tywydd yn wlyb ac oer a gallai fod wedi bod yn anhawster pe byddai'r bartneriaeth â GRF wedi parhau fel rhan o Dyma Ni. Yn ychwanegol, gan fod Dyma Ni yn defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y person, pe byddai cyfranogwr nad yw'n mwynhau'r gweithgareddau awyr agored, gallai hyn ei gwneud yn anoddach diwallu eu hanghenion yn sgil sefydlogrwydd y cyflawni rhwng y ddau bartner. Mae hyn yn awgrymu y gallai mwy o hyblygrwydd o ran y cyflawni fod yn ddefnyddiol fan hyn.

Agwedd arall i'w hystyried o ran sefydlogrwydd wrth gyflwyno'r prosiect yn ehangach mewn lleoliadau eraill yw'r cyllid sydd ar gael i gynorthwyo'r prosiect. Un o fanteision allweddol Dyma Ni yw ei allu i roi sefydlogrwydd i'r bobl ifanc sy'n rhan ohono. Fe allai cynnig prosiectau i bobl ifanc anabl ar sail fwy gwibiol a thymor byr wneud mwy o niwed na daioni. Fel y mae'r adborth o Dyma Ni yn awgrymu, y mae wedi chwarae rhan bwysig ym mywydau'r cyfranogwyr, yn gymdeithasol a datblygiadol.

3 Sut mae'r cyfranogwyr wedi elwa o Dyma Ni?

Mae effaith Dyma Ni ar y cyfranogwyr wedi'i chasglu drwy gyfweiliadau â thîm y prosiect a thrwy'r cyfweiliadau â rhieni a gofalwyr. O'r holl gyfweiliadau a gynhaliwyd â rhieni a gofalwyr (n=7), mae pob un yn awgrymu y gwelsant gynnydd yn y cyfranogwr, ar wahân i un aelod o'r teulu a ddwedodd mai prin oeddynt yn gwybod am yr hyn a ddigwyddai yn Dyma Ni ac nad oedd ganddynt unrhyw ddisgwyliadau ac nad oeddynt wedi gweld unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r prosiect.

Crynodeb o'r adran

- Hyder ac annibyniaeth oedd prif ganlyniadau cadarnhaol Dyma Ni i'r cyfranogwyr.
- Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r posibilrwydd o sefydlu menter gymdeithasol i'r bobl ifanc yn Dyma Ni ac i ba raddau y bydd modd cyflawni hyn gyda'r grŵp.
- Cafodd y prosiect rywfaint o sylw yn lleol, ond gellid gwneud mwy i leihau'r rhwystrau i anabledau drwy'r prosiect.

3.1 Hyder

Dangosodd cyfranogwyr Dyma Ni gynnydd mewn hyder. Daeth hyn i'r amlwg drwy'r gweithgareddau a'r sgiliau yr oeddynt yn ymwneud â hwy a chynnydd mewn gwybodaeth ynglŷn â'r hyn y gallent gyflawni, yn ogystal â hyder yn cynyddu drwy fod yn rhan o grŵp cefnogol gyda'r cyfranogwyr eraill, fel mae'r dyfyniadau canlynol yn awgrymu:

'Mae hi'n sicr wedi cynyddu hyder drwy fynd yno, gan ddod mas o'i chragen, yn fwy siaradus, a chafodd rai profiadau newydd.' (Cyfweiliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 4)

'Mae wedi magu llawer mwy o hyder, gwneud rhywfaint o ffrindiau. Mae'n tynnu ymlaen yn dda ag arweinwyr y grŵp.' (Cyfweiliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 1)

Arsylwyd effaith hefyd ar hyder y tu allan i gyfarfodydd grŵp Dyma Ni, a nododd llawer o'r rhieni neu'r gofalwyr bod y cyfranogwyr wedi dangos newid ymddygiadol cadarnhaol y gellid ei briodoli i'r ffaith iddynt ymwneud â'r prosiect.

Awgrymodd un aelod o staff a gyfwelwyd mai hyder fu prif gyflawniad Dyma Ni a bod y prosiect wedi helpu i roi hunan-werth a pharch i'r bobl ifanc a oedd yn rhan o'r prosiect:

'Rwy'n gobeithio mai'r prif beth fyddan nhw wedi'i gael fydd yr hyder i wneud beth bynnag maen nhw eisiau ei wneud a'r gred y gallan nhw ei wneud, gan ddal eu pen yn uchel yn hytrach nag edrych tua'r llawr.' (Cyfweiliad â Staff)

3.2 Annibyniaeth

Yn dilyn ymlaen o'r hyder, prif ganlyniad cadarnhaol arall prosiect Dyma Ni oedd cynnydd mewn annibyniaeth ymysg y cyfranogwyr. Mae hyn i'w weld wrth i'r cyfranogwyr gymryd camau annibynnol fel trefnu i gwrdd aelodau'r grŵp y tu allan i sesiynau Dyma Ni, defnyddio cludiant cyhoeddus i fynd i Aberaeron, a siopa'n annibynnol, fel y mae'r dyfyniadau canlynol yn awgrymu:

'Mae wedi cael cryn dipyn o annibyniaeth. Mae'n braf ei fod yn go lleol am y gall ddal bws ar ei ben ei hun ac mae'n hyderus iawn ynglŷn â mynd i Aberaeron a chasglu'r siopa ar y ffordd adref wedyn.' (Cyfweiliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 7)

'Rydym ni wedi bod yn gweithio er mwyn iddo ddal y bws ar ei ben ei hun neu fynd i Dyma Ni ar ei ben ei hun fel na fydd angen cymaint â hynny o gymorth arno... ar y ddau ddiwrnod yr wythnos pan mae'n mynd i Dyma Ni, er mwyn mynd yno.' (Cyfweiliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 6)

Daeth yr annibyniaeth hon hefyd i'r amlwg ar ffurf newid yn agweddau'r cyfranogwyr, megis dymuniad i ddod o hyd i gyflogaeth neu ymwneud â gwirfoddoli. Ymhellach, nododd rhieni a gofalwyr bod mwy o aeddfedrwydd i'w weld ymysg y cyfranogwyr, a bod rhai'n gobeithio byw bywydau mwy annibynnol ac yn siarad am y dyfodol yn rhagweithiol. I rai cyfranogwyr, daeth yr annibyniaeth hon i'r amlwg drwy ddiffyg dibyniaeth mwy cyffredinol ar ofalwyr neu rieni.

Mae gallu grŵp Dyma Ni wedi'i briodoli i helpu i gynorthwyo'r pontio yma ymysg y cyfranogwyr. Bu'r grŵp yn gweithio fel rhwydwaith o gymorth ac mae'n creu synnwyr o berthyn a chyfeillgarwch. Gwnaeth llawer o'r rhieni a'r gofalwyr drafod y ffaith bod y cyfranogwyr mewn cyswllt â'i gilydd y tu allan i'r prosiect, a'r buddion sydd i'r rhyngweithio hyn i'r cyfranogwyr. Dyma ddisgrifiad un aelod o'r staff o'r grŵp:

'Maen nhw'n griw. Mae ganddyn nhw gyfeillion a ffrindiau. A bydd rhai yn cynnal cyswllt llygaid nawr, pan na fydden nhw'n codi eu golwg o'r llawr. Dyna sut ydw i wedi bod yn mesur [ei lwyddiant].' (Cyfweiliad â Staff)

Yn ychwanegol, awgrymodd un rhiant neu ofalwr y gallai cynnwys sgiliau bywyd fod o fudd i gyfranogwyr Dyma Ni:

'Pe gallai [Dyma Ni] ddysgu sgiliau bywyd i'r oedolion ifanc, fe fyddai hynny'n cael effaith ar bob un ohonyn nhw. Hyn a hyn yn unig y gall rhieni ddysgu iddyn nhw. Dydyn nhw ddim yn gwrandao arnom ni fel rhieni. Os yw rhywun arall yn eu dysgu nhw, mae'n fwy tebygol o lynu.' (Cyfweiliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 1)

3.3 Datblygiad Personol

Nododd rhieni a gofalwyr hefyd fod rhai cyfranogwyr wedi profi datblygiad personol, y gellid ei briodoli, os yn rhannol yn unig, i'r ffaith iddynt gymryd rhan yn Dyma Ni. Roedd y datblygiad a nodwyd yn aml yn ymwneud â chynnydd yn eu lleferydd, ymdrin â gorbryder, a sgiliau cymdeithasol a sgwrsio:

'[Mae'r cyfranogwr] yn dioddef o ffobia cymdeithasol. Roedd yn anodd ei chael i fynd i grŵp. Mae wedi dod mas o'i chragen yn hynny o beth.'
(Cyfweliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 1)

Mae modd gweld cysylltiadau rhwng y datblygiadau personol hyn â chynlluniau datblygu personol y cyfranogwyr, a chymerodd y cyfranogwyr gamau cadarnhaol yn ystod eu hamser yn Dyma Ni sy'n helpu nid yn unig i ddatblygu sgiliau ond hefyd adeiladu'n ehangach a chael effaith ar raddfa fwy.

Ymhellach, nododd y staff eu bod wedi gweithio ar ymwybyddiaeth o eraill ac empathi. Drwy hyn, roeddynt yn annog dealltwriaeth o'r cyfranogwyr eraill a'u teimladau a pharchu eraill. Meddai un aelod o staff:

'Rydym ni wedi treulio amser ar ddeall sut byddai rhywun yn teimlo, gan dreulio amser yn siarad am sut byddech chi'n teimlo pe byddai rhywun yn gwneud rhywbeth nad ydych chi'n ei hoffi. Erbyn hyn, os ydyn nhw... yn meddwl y gallen nhw fod wedi ypsetio rhywun, ac mae hynny'n beth mawr iawn. Mae'n beth mawr iawn i rywun ar y sbectrwm ddweud hynny... Mae'n rhoi golwg ehangach iddyn nhw o'r byd.' (Cyfweliad â Staff)

Fodd bynnag, nid oedd yr holl rieni a'r gofalwyr yn ymwybodol o'r cynlluniau datblygu personol a'r gwaith a wnaeth y cyfranogwyr tuag at y rhain, fel yr awgryma'r dyfyniadau canlynol:

'Maen nhw'n gwneud llawer o grefftau, ond dydw i ddim yn credu ei bod hi wedi cael un-i-un.' (Cyfweliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 1)

'Dydw i ddim meddwl ei bod hi wedi gwneud hynny. Dydw i ddim wedi gweld unrhyw beth fel yna.' (Cyfweliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 4)

Mae hyn yn awgrymu y gellid gwneud mwy i dynnu sylw at bwysigrwydd y cynlluniau yma ac annog datblygiad yn fwy holistaidd (gan gynnwys drwy amgylchedd y cartref), am i ychydig rieni neu ofalwyr nodi nad oeddynt yn ymwybodol o'r holl weithgareddau a wnaed yn ystod cyfarfodydd Dyma Ni.

Fodd bynnag, dylid nodi nad cyfrifoldeb y staff yn unig yw hysbysu'r rhieni a'r gofalwyr. Y mae'n aml o ganlyniad i ddiffyg cyfathrebu rhwng y cyfranogwyr a'u teuluoedd/gofalwyr, sydd y tu hwnt i reolaeth y prosiect. Yn ychwanegol, fel a nodir uchod, mae holl gyfranogwyr Dyma Ni yn oedolion ac ni chânt eu gorfodi i wneud dim nad ydynt eisiau ei wneud, hyd yn oed pe gallai fod o fudd (fel a bwysleisiwyd mewn unrhyw gynllun datblygu personol). Rhoddir ymreolaeth i'r cyfranogwyr ddewis yr hyn y maent yn ymwneud ag ef.

Wrth i'r cyfranogwyr wneud cynnydd cadarnhaol, gall hynny hefyd effeithio ar eu hagweddau a'u disgwyliadau ynglŷn â chyflawniadau, a all hefyd eu hannog a'u hysbrydoli i'w gwthio eu hunain yn bellach a lleihau'r hyn sy'n eu rhwystro rhag rhoi cynnig ar bethau newydd.

3.4 Gofal Seibiant a Diogel

Agwedd ychwanegol a oedd yn bwysig i rieni a gofalwyr oedd y gofal seibiant yr oedd Dyma Ni yn ei gynnig, a nododd ychydig rieni a gofalwyr ei bod wedi bod yn dda cael ychydig o ofod ers i'r cyfyngiadau symud ddechrau:

'Mae'n rhoi cyfle i mi gael seibiant. Ers i'r cyfyngiadau symud ddechrau, rydym ni wedi bod gyda'n gilydd o hyd. Rydym ni'n tynnu ymlaen yn dda. Mae'n berson ifanc hyfryd iawn, ond mae angen dweud wrthi am wneud pethau... Paen mae hi yn Dyma Ni, mae hynny'n rhoi seibiant i mi a fy ngŵr.'
(Cyfweliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 4)

'Roedd yn arfer rhoi seibiant i fy ngŵr am ddiwrnod o wybod ei bod hi'n gwneud rhywbeth arall gyda rhywun arall.' (Cyfweliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 2)

Yn yr un modd, nododd ychydig rieni eu bod yn credu bod Dyma Ni yn amgylchedd diogel i gyfranogwyr a chawsant eu calonogi ynglŷn â'r gofal y byddent yn ei dderbyn tra eu bod yno:

'Rwy'n teimlo'n go ddiogel gydag e yno. Rwy'n gwybod ei fod yn hapus.'
(Cyfweliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 3)

Cyfeiriodd staff y prosiect at ddiogelwch yr amgylchedd hefyd, gan ddweud ei bod yn bwysig i'r cyfranogwyr deimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd.

Yn ychwanegol, o ran diogelwch, ers i'r prosiect ailagor yn dilyn cyfyngiadau symud COVID-19 ym mis Medi 2020, mae nifer o fesurau ychwanegol wedi'u rhoi yn eu lle i sicrhau diogelwch y cyfranogwyr. Mae'r rhain wedi cynnwys rhannu'r grŵp er mwyn lleihau'r niferoedd mewn sesiynau un-diwrnod-yr-wythnos dros y ddau ddiwrnod. Mae hyn yn caniatáu i bellter cymdeithasol gael ei gadw ac i'r gweithgareddau gael eu cynnal yn ddiogel. Yn sgil hyn, mae'r holl aelodau wedi dychwelyd i'r grŵp ers iddo ailgychwyn ac wedi addasu'n dda i'r newidiadau.

Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, roedd tîm prosiect Dyma Ni yn cynnal cyswllt â chyfranogwyr y prosiect yn wythnosol i wneud yn siŵr eu bod yn iawn. O fis Mai ymlaen, dechreuodd y tîm ymweld â'r cyfranogwyr mewn sesiynau "cerdded a sgwrsio" un-i-un. Roedd y rhain yn para tua dwy awr yr un ac yn cynnig cyfle i'r cyfranogwyr adael y tŷ'n ddiogel. Ymhellach, gwnaeth y staff nodi'r rhai a oedd yn dioddef â'u hiechyd meddwl o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud a chreu pecyn gydag ymarferion a chymorth i'w helpu. Roeddynt hefyd yn canolbwyntio ar weithio drwy'r ymarferion hyn gyda hwy yn ystod eu cyfarfodydd.

3.5 Integreiddio Cymunedol

Un o elfennau ehangach Dyma Ni oedd datblygu'r graddau y mae'r cyfranogwyr yn integreiddio'n gymunedol. Sefydlwyd hyn yn rhannol drwy ddatblygu annibyniaeth y cyfranogwyr drwy'r prosiect a'u gweithgareddau ehangach y tu allan i Dyma Ni.

Fodd bynnag, nid yw'r gobeithion ychwanegol y gallai RAY Ceredigion sefydlu menter gymdeithasol i weithio gyda chyfranogwyr Dyma Ni wedi'u gwireddu hyd yma, er y dylid nodi bod cynnydd yn hyn o beth wedi'i atal yn sgil cyfyngiadau symud COVID-19 a'r cyfnod atal byr dilynol.

Nododd un aelod o staff, fodd bynnag, eu bod yn teimlo ei bod yn bosibl na fyddai modd cyflawni'r agwedd hon ar y prosiect. Roeddynt yn priodoli hyn i ddealltwriaeth y cyfranogwyr â oedd, wrth greu crefftau, yn canolbwyntio ar greu cynnyrch i'w perthnasau a'u ffrindiau yn hytrach nag i'w gwerthu:

'[Awgrymwyd y byddai] ganddynt sgiliau i redeg eu busnes eu hunain, ond dydw i ddyd yn siŵr pa mor realistig yw hynny. Y rhai sydd yn ddawnus yn artistig a allai eistedd a chreu darn o waith sy'n addas i'w werthu — nid yw eu hymennydd yn gweithio fel yna. Rydym ni wedi creu darnau hyfryd, ond maen nhw'n gwybod i bwy maen nhw'n eu creu. Rwy wedi cael sgysiau gan ddweud "fe allech chi werthu'r rhain" a chael golwg arswydus ganddyn nhw. Maen nhw i gyd yn gwybod i bwy mae'r darn — i'w mam, eu mam-gu neu'r ci. Mae yna un neu ddau a allai greu gwaith sy'n addas i'w werthu, ond dydyn nhw ddim wedi creu'r un peth y bydden nhw'n ystyried ei werthu. Rwy wedi cael sgwrs gyda nhw i awgrymu y gallen nhw ei werthu, a'u hateb yw, "Pam?".' (Cyfweliad â Staff)

Os mai dyma'r llwybr y bydd y prosiect yn ei ddilyn, awgrymodd yr aelod yma o staff y bydd angen bod yn glir ynglŷn â phob darn o grefft y maent yn ei gynhyrchu fel na fyddai'r cyfranogwyr yn ystyried mai rhodd yw'r eitem ac yn ei hystyried yn eitem i'w gwerthu. Mae'n awgrymu bod creu crefftau i'r cyfranogwyr yn fwy o weithred gymdeithasol yn gysylltiedig â chyfeillgarwch a mwynhad na gweithred economaidd.

Teimlai'r rhieni a'r gofalwyr fod Dyma Ni wedi annog y cyfranogwyr i ystyried cyfleoedd gwaith neu wirfoddoli (yn hytrach na gweithgareddau menter gymdeithasol personol), fel y mae'r dyfyniadau canlynol yn awgrymu, sy'n galonogol o ran gwell ymgysylltiad cymunedol yn y dyfodol:

'[Mae'r cyfranogwr wedi] gwneud rhywfaint o wirfoddoli gyda'r [coleg lleol]. Fe wnaeth e helpu gyda grŵp chwarae'r plant bach, ac roedd e'n dwlu ar hynny.' (Cyfweliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 7)

'Mae sgiliau cymdeithasol [y cyfranogwr] yn sicr wedi datblygu. Fe fyddai'n dda ar wneud mwy o wirfoddoli nawr, dwi'n meddwl.' (Cyfweliad â Rhiant/Gofalwr ynglŷn â Chyfranogwr 4)

Nododd un aelod o staff mai prin oedd y sylw a gafodd y prosiect ei hun a bod rhwystrau'n dal i fodoli o ran canfyddiadau o allu pobl anabl. Meddent:

'Rydym ni'n mynd mas a chymysgu, ond bydd y rhagfarn sefydliadol yno am amser hir iawn. Mae'n beth anodd mynd i'r afael ag e.' (Cyfweiliad â Staff)

Mae hyn yn awgrymu y gallai mwy gael ei wneud i leihau rhagfarn ac addysgu'n ehangach ynglŷn â chyflawniadau oddi mewn i'r grŵp ac yn fwy cyffredinol. Ymhellach, roedd un aelod o staff yn crynhoi hyn fel yr angen am barch i bawb, gan gynnwys rhai sydd ag anableddau.

3.6 Effeithiau Ehangach

Wrth ystyried effaith a chanlyniadau Dyma Ni, dylid ystyried hefyd effeithiau ehangach y prosiect ar y rhai sy'n cymryd rhan ynddo a'r gymuned yn ehangach. Yn gyntaf, ceir effaith gadarnhaol ar ganfyddiadau o anabledd. Yn ystod y cyfweiliadau â staff y prosiect, nododd un cyfweilai, wrth geisio am gyllid i'r peilot, eu bod yn teimlo fel eu bod yn wynebu stereoteipiau ynglŷn â sut beth yw eu pobl ag anableddau a beth gallent gyflawni oddi mewn i'r Grŵp Gweithredu Lleol. Roedd yn teimlo bod Dyma Ni yn gam tuag at helpu i chwalu'r stereoteipiau hyn a newid canfyddiadau o anableddau:

'Effaith ehangach yw ceisio cael gwared ar syniadau rhagdybiedig am bobl sydd ag anableddau. Dydw i ddim yn siŵr a wnaeth e gyflawni hynny, ond yn sicr i'r gwirfoddolwyr a'r rhai a oedd yn ymwneud â'r prosiect, fe wnaeth ddigwydd.' (Cyfweiliad â Staff)

Fodd bynnag, nododd aelod arall o staff y gallai mwy gael ei wneud yn y gymuned leol ac oddi mewn i RAY Ceredigion ei hun i leihau rhwystrau a rhagfarn tuag at anableddau.

Ymhellach, nododd un o'r staff cyflawni bod eu rhan hwy yn y prosiect wedi'u cynorthwyo i ddatblygu mwy o wybodaeth ar ddefnyddio'r ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person ac ar y dulliau cyflawni. Nododd yr aeth hyn yn ei flaen i ychwanegu at waith ychwanegol yr oeddynt wedi'i wneud, gan nodi bod Dyma Ni wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hymarfer proffesiynol.

4 Astudiaethau Achos

Mae'r adran hon yn cynnwys tair astudiaeth achos o blith cyfranogwyr Dyma Ni. Mae pob un wedi'u dewis i gynrychioli rhyw agweddau allweddol ar y prosiect, yn ogystal a chynnig esiamplau o'r effeithiau a'r canlyniadau a welwyd o fod yn rhan o Dyma Ni.

Astudiaeth Achos 1 (Cyfranogwr 7)

Ym marn rhiant Cyfranogwr 7, mae Dyma Ni wedi chwarae rôl enfawr wrth ddatblygu ei annibyniaeth, aeddfedrwydd a meddylgarwch. Mae cymryd rhan yn Dyma Ni wedi rhoi i Gyfranogwr 7 y rhyddid a'r hyder i ddal y bws i sesiynau'r grŵp bob wythnos, yn ogystal â siopa i'r teulu ar y ffordd adref, ac mae ei rieni'n ystyried bod hyn yn dangos ei fod yn datblygu ystyriaeth o'r teulu a'r rôl y mae'n ei chwarae ynddo:

'Mae wedi datblygu cryn lawer o annibyniaeth. Mae'n braf ei fod yn go lleol am y gall ddal bws ar ei ben ei hun ac mae'n hyderus iawn ynglŷn â mynd i Aberaeron a chasglu'r siopa ar y ffordd adref wedyn... Mae'n hyfryd gweld y gall gynllunio a gwneud pethau ar ei ben ei hun, pethau sy'n ein helpu ni. [Mae'r cyfranogwr] lawer yn fwy annibynnol a meddylgar.'

Mae Dyma Ni hefyd wedi rhoi cyfle i Gyfranogwr 7 gymysgu a chymdeithasu gyda phobl yr un oed ag ef a datblygu sawl cyfeillgarwch o ganlyniad i hynny. Mae'r rhiant yn dweud bod y cyfranogwr bellach mewn cyswllt â'i ffrindiau bob dydd.

Fel rhan o'r gwaith gyda Dyma Ni, meddai rhiant Cyfranogwr 7 fod ganddo lyfryn portffolio o'r hyn mae wedi'i gyflawni a'i fwynhau fel rhan o Dyma Ni. Mae hyn yn helpu'r teulu i barhau i fod yn ymwybodol o ddiddordebau a gweithgareddau'r cyfranogwr yn y prosiect.

Datblygiad cadarnhaol ers i'r cyfranogwr fod yn ymwneud â'r prosiect oedd iddo gytuno i fod yn rhan o brosiect lleoliad gwaith. Roedd hyn yn caniatáu i'r cyfranogwr ddod o hyd i ambell swydd leol a nododd y rhiant iddo ers hynny wneud cais am swydd barhaol mewn busnes lleol. Unwaith eto, nodwyd bod hyn yn sgil eu cynnydd mewn hyder, a'i fod wedi helpu i gynyddu'u hyder:

'Fe wnaeth gytuno i fod yn rhan o brosiect arall a oedd yn edrych am leoliadau gwaith iddo, felly fe wnaeth e weithio [mewn busnes lleol] am gyfnod ac [mewn busnes lleol]. Mae'n fwyfwy hyderus nawr ac mae e yn y broses o wneud cais am swydd gyda [busnes lleol], lle y gallan nhw gefnogi ei rôl. Byddai hynny'n ffordd arall iddo gwrdd â phobl o'r un oedran a datblygu cyfeillgarwch go iawn fel mae pawb arall yn ei wneud.'

Yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, nododd rhiant Cyfranogwr 7 eu bod wedi llwyddo i ddod o hyd i bethau iddo wneud o amgylch y tŷ, am ei fod yn hoff o gael ei gadw'n brysur. Ymhellach, roedd y gweithiwr prosiect wedi cysylltu â'r cyfranogwr bob yn ail wythnos i wneud yn siŵr ei fod yn iawn a sut roedd yn dod yn ei flaen. Roeddynt yn credu bod hyn wedi lleihau effaith cyfyngiadau COVID-19 ar y cyfranogwr.

Mae'r teulu'n gweithio i helpu i gynyddu a datblygu'r annibyniaeth a sefydlwyd gan y cyfranogwr; er enghraifft, pan maent yn mynd i siopa, maent yn gwneud yn siŵr bod y cyfranogwr hefyd yn mynd ond bod ganddo ei droli ei hun er mwyn cael y profiad o siopa'n annibynnol. Nodwyd eu bod yn aml heb sylwi beth allai'r cyfranogwr wneud, ond tynnwyd sylw at hyn drwy eu cyflawniadau yn Dyma Ni, fel y mae'r dyfyniad canlynol yn awgrymu:

'Gyda'r ffordd y mae'n dod yn ei flaen, mae'n amlwg yn bodloni rhywbeth i roi'r hyder iddo i gyrraedd carreg filltir newydd bob mis. Weithiau fydda i ddim wedi sylweddoli nad oedd wedi cyrraedd yno'n barod — mae'n meddwl llawer mwy dros ei hun. Yn hytrach na bod yn rhaid dweud wrtho beth sydd angen iddo brynu fel anrhegion Nadolig, fe wnaiff eu prynu nhw ei hun neu fynd i siopa ar ein cyfer ni ar y ffordd adre er mwyn ein helpu.'

Heb Dyma Ni, mae rhiant Cyfranogwr 7 yn teimlo y byddai'r cyfeillgarwch sydd wedi'i sefydlu yn y grŵp yn dirwyn i ben a byddai ganddo lai i'w gadw'n brysur. Maent yn ystyried bod Dyma Ni yn gyfle gwych i bobl ifanc leol ac yn nodi y byddai'n dda pe byddai'r profiad ar gael i ragor o bobl yn yr ardal.

[Astudiaeth Achos 2 \(Cyfranogwr 6\)](#)

Nododd gweithiwr cymorth Cyfranogwr 6 ei fod yn dwlu ar fynychu Dyma Ni, a bod staff y prosiect yn ei wneud yn hwyl a rhyngweithiol iddo ef a'r holl gyfranogwyr. Ymhellach, pwysleisient fod y prosiect wedi helpu i ddatblygu sgiliau sgwrsio a chymdeithasu'r cyfranogwr yn fawr. Maent yn teimlo bod cael bod yn rhan o grŵp wedi'i helpu i gael amgylchedd diogel ac anffurfiol i ddatblygu ynddo:

'Rwy'n credu mai'r peth mwyaf yw'r berthynas gyda'r bobl sy'n gweithio yno. Maen nhw mor rhyngweithiol o hyd. A'r bobl eraill yn ei grŵp, o fanna'n unig mae e'n eu hadnabod, ac mewn sesiwn fer tra'n gwneud pethau, mae'n rhyngweithio â'r rhan fwyaf ohonyn nhw. Mae'n hoffi'r bobl sy'n ei wneud. Os yw'n siarad amdano, nhw yw'r peth cyntaf y bydd yn siarad amdano. Maen nhw mor hawdd iddo ymwneud â nhw. Fe fyddai wastad angen ei gocso i wneud y pethau maen nhw'n eu gwneud, ond mae'r ffaith eu bod nhw wedi llwyddo i'w gael i greu'r holl bethau yma i'w rhoi i'w fam-gu yn wych. Mae wastad yn hwyl iddo. Mae wedi bod yn glwb gwych iddo. Mae ei holl bethau datblygiadol wedi bod ar leferydd, sgwrsio a hyder.'

Mae Dyma Ni wedi caniatáu i Gyfranogwr 6 ddatblygu hyder yn y sgiliau newydd a ddatblygwyd drwy'r prosiect a nododd ei weithiwr cymorth fod yr ymddiriedaeth a roddwyd i'r cyfranogwr i ganiatáu iddo roi cynnig ar bethau newydd a'r annibyniaeth iddo ddatblygu wedi cael effaith enfawr:

'Mae ei sgiliau sgwrsio a chymdeithasu wedi symud ymlaen yn fawr iawn. Mae'r holl weithgareddau maen nhw'n gwneud wedi esgor ar y pethau datblygiadol ... mae wedi bod yn hapus iawn i gael bod yn rhan o'r grŵp.'

Esboniodd gweithiwr cymorth Cyfranogwr 6 fod perthnasau'r cyfranogwr oll yn falch iawn o'i gyflawniadau drwy'r grŵp ac yn ehangach o ganlyniad i'r prosiect:

'Mae ei fam-gu wedi bod mor falch ohono. Mae'r effaith ar y teulu cyfan wedi bod yn wych, o weld mor bell mae wedi symud ymlaen ... fe wnaethon ni roi'r portffolio i'w fam-gu sy'n oedrannus iawn. Mae'n cyffroi gymaint amdano ac yn siarad mewn ffordd nad oes modd deall yn iawn beth mae'n ei ddweud, sy'n hyfryd i'w weld o achos, wrth ofyn iddo beth mae wedi bod yn ei wneud, ei ateb fel arfer yw, "Dim llawer".'

Roeddynt yn esbonio ei fod yn datblygu ei annibyniaeth ymhellach drwy weithio gyda'r cyfranogwr ar ddal bws i Aberaeron er mwyn mynd i Dyma Ni.

Yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, meddai'r gweithiwr cymorth fod y cyfranogwr wedi gweld eisiau'r grŵp a'i fod wedi amharu ar osod targedau a gwaith portffolio gyda Dyma Ni. Fodd bynnag, heb Dyma Ni o gwbl, meddent y byddai'r cyfranogwr yn debygol o brofi 'cwmp' yn ei gynnydd, ac nad oes llawer yno — yn debyg i Dyma Ni — sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc.

Wrth gloi, dwedent fod Dyma Ni yn amgylchedd mor gadarnhaol a hapus, sy'n gynhwysol o'i holl aelodau ac yn creu synnwyr o berthyn i grŵp a chysur i bawb sy'n ei fynychu:

'Roedd yn ei weld mor hawdd ymuno â grŵp mewn o bobl a pheidio â chael ei wrthod. Gall gael ei frifo yn go hawdd os ydych chi'n dweud rhywbeth sy'n swnio'n gas neu'n codi eich llais. Mae llawer o chwerthin a jôcs yno. Dydw i ddim yn gwybod a yw'n eu deall neu beidio, ond mae'r amgylchedd wir yn un hapus yno. Hyd yn oed os yw rhywun yn teimlo'n isel, fe fydd yr ysbryd yn codi'n ddigon cyflym. Mae'n glwb hynod o dda yn gyffredinol. Mae'n rhaid i mi ddweud hefyd bod y ffaith eu bod nhw'n fregus yn cael ei barchu yno — does dim unrhyw deimladau amheus yno o gwbl.'

[Astudiaeth Achos 3 \(Cyfranogwr 4\)](#)

Roedd perthynas Cyfranogwr 4 yn credu bod y gallu i gymysgu gyda phobl yr un oed â hi a'r cyfle i gwrdd â phobl newydd yn fanteision mawr i'w datblygiad a'i hapusrwydd:

'Mae'n dwlu ar fynd yno. Mae'n cymysgu gyda'i grŵp oedran ei hun, ac yn gwneud llawer o bethau sy'n ei boddhau hithau a ninnau — mae'n meddwl y byd o'r lle.'

Roedd Dyma Ni yn rhoi boddhad iddi yn yr hyn mae'n gwneud, ac roedd yn gyfle iddi fynd allan o'r tŷ ac oddi ar sgrin cyfrifiadur:

'Iddi hi gael mynd mas, cwrdd â phobl newydd a dysgu sgiliau newydd — mae'r pethau celf yn dda i'w dwylo gael bod yn gwneud rhywbeth ar wahân i fod yn eistedd wrth ei chyfrifiadur neu'r ffôn.'

Meddai perthynas Cyfranogwr 4 iddi ddod allan o'i chragen yn fwy a'i bod wedi cael mwy o brofiadau cymdeithasol gyda phobl eraill ers dechrau yn Dyma Ni:

'Rwy'n credu am ei bod wedi adeiladu hyder drwy gwrdd â phobl eraill yr un oed â hi a rhannu profiadau gyda nhw.'

Maent hefyd yn ystyried mai Dyma Ni a wnaeth sbarduno mwynhad y cyfranogwr o goginio a ffotograffiaeth.

Nododd y berthynas fod y cyfranogwr yn flaenrol wedi bod yn gwirfoddoli'n lleol ond iddi gael ei rhyddhau am ei bod yn fregus. Fodd bynnag, mae'r berthynas nawr yn nodi bod hyder a sgiliau cymdeithasol y cyfranogwr wedi datblygu'n rhyfeddol ers hynny, ac yn teimlo y gallai fod modd iddi ymgymryd â rolau gwirfoddoli yn y dyfodol:

'Roedd hi'n gwirfoddoli ... Roedd hi'n siomedig iawn pan fu'n rhaid iddyn nhw ei gadael i fynd oherwydd ei bod hi'n fregus. Mae'n 21 oed ac fe all hi gael sgysiau braf gyda phobl, ond weithiau mae'n teimlo ei bod hi lawer yn iau na 21. Mae ei sgiliau cymdeithasol yn sicr wedi datblygu — byddai'n well ar wirfoddoli erbyn hyn, dwi'n meddwl.'

Synnwyd y berthynas gan gynnydd y cyfranogwr a bod Dyma Ni yn caniatáu i'r cyfranogwr ddangos yr hyn y mae ganddi'r gallu i'w wneud. Ymhellach, mae Dyma Ni yn darparu seibiant i'r teulu, gan wybod bod y cyfranogwr mewn amgylchedd diogel a gofalgar tra y gall y teulu ymlacio gartref.

Gwnaeth y cyfranogwr weld eisiau Dyma Ni yn ystod cyfnod cyfyngiadau symud COVID-19 ac meddai ei pherthynas y byddai'n drychineb pe deuai'r grŵp i ben. Roedd yn poeni y byddai'r cyfyngiadau symud yn ei gwneud yn 'ddigalon', ond roeddynt yn ceisio ei chadw'n brysur o amgylch y tŷ yn ystod cyfnod y cyfyngiadau. Ymhellach, roeddynt yn nodi, yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, bod y cyfranogwr wedi cael cyswllt rheolaidd â thîm Dyma Ni, a bod y staff hefyd yn yn mynd am dro yn lleol gyda'r cyfranogwr.

5 Casgliadau ac Argymhellion

5.1 Casgliadau

Mae'r gwerthusiad wedi canfod bod prosiect Dyma Ni, yn gyffredinol, yn cael ei ystyried yn gadarnhaol gan bawb sy'n ymwneud ag ef a'i fod wedi cyflawni ei brif nod o gynnig cymorth i bobl 17–30 oed sydd ag anableddau ar ôl addysg amser llawn. Roedd rhai o'r prif bwyntiau cadarnhaol y tynnwyd sylw atynt yn yr ymchwil yn cynnwys gallu'r prosiect i roi hyder ac annibyniaeth ychwanegol i'r cyfranogwyr, pwysigrwydd y dull sy'n canolbwyntio ar y person, ac ymroddiad y tîm cyflawni i wneud y prosiect yn llwyddiant.

I gychwyn, ariannwyd y prosiect fel peilot drwy raglen LEADER yng Ngheredigion, sef Cynnal y Cardi. O ganlyniad i'w llwyddiant, aeth yn ei flaen i ddenu cyllid ychwanegol er mwyn cynorthwyo i ddarparu'r prosiect yn y dyfodol. Drwy'r adroddiad hwn, mae Dyma Ni wedi dangos ei fod wedi bodloni llawer o feini prawf LEADER, gan gynnwys sefydlu ymateb lleol i ddarparu cymorth i'r bobl ifanc yma. Yn ychwanegol, mae Dyma Ni wedi tynnu sylw at yr angen am y math hwn o brosiect i ganiatáu i gymorth i'r bobl ifanc anabl yma, a'u datblygiad, barhau ar ôl iddynt adael addysg. Bu'n arbennig o bwysig o ran caniatáu i'r cyfranogwyr fagu hyder ac annibyniaeth pellach, yn ogystal â ffurfio cyfeillgarwch â chyfranogwyr eraill.

Dangosodd y prosiect hefyd ei fod wedi cymryd camau da tuag at integreiddio'r cyfranogwyr yn y gymuned. Ceir enghreifftiau o hyn yn yr adroddiad, gan gynnwys y cyfranogwyr yn mynd i siopa, defnyddio cludiant cyhoeddus, ac ymwneud â gweithgareddau heb eu rhieni neu ofalwyr. Yn ychwanegol, mae'r adroddiad hwn wedi tynnu sylw at rai achosion lle mae'r cyfranogwyr naill ai'n mynd ati'n weithredol neu'n teimlo'n fwy parod i ymgymryd â swydd neu rôl wirfoddoli. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod hyfywedd y prosiect i ddatblygu sgiliau entrepreneuriaidd a mentrau cymdeithasol o ganlyniad i'r cyfranogwyr naill ai'n bellach i ffwrdd neu nad yw o bwysigrwydd allweddol i rai o'r cyfranogwyr.

Mae Dyma Ni hefyd wedi ychwanegu gwerth yn ehangach. Nododd tîm y prosiect y gall y prosiect helpu i newid canfyddiadau o allu pobl ifanc sydd ag anableddau. Ymhellach, nododd aelod o'r staff cyflawni bod ymwneud â'r prosiect wedi'u helpu i lywio eu hymarfer ac mewn gwaith tebyg dilynol â phobl sydd ag anableddau.

Roedd y model partneriaeth o gyflawni yn gweithio'n dda i gychwyn. Yn ystod y cyfnod yr oedd Green Rocket Futures yn ymwneud â chyflawni'r prosiect, roedd yn cynnig cyfle i'r cyfranogwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, ac yn ddiarnheul gwnaeth hynny helpu llawer o gyfranogwyr ddeall beth roeddynt yn ei fwynhau ac eisiau gwneud mwy ohono. Hefyd, gwnaeth y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored helpu llawer o gyfranogwyr i leihau rhwystrau a dysgu sgiliau newydd.

Gwnaeth y gwaith partneriaeth rhwng Dyma Ni a Green Rocket Futures beri datblygiad a sgiliau ychwanegol pwysig i'r cyfranogwyr ac roedd o fudd i'r prosiect. Gallai buddion o'r fath gael eu cynhyrchu eto drwy greu mwy o bartneriaethau rhwng sefydliadau lleol ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae angen gwneud hyn gan fynd ati'n fwriadol i sicrhau cyfathrebu a dealltwriaeth rhwng pob partner er mwyn sicrhau cysondeb ac ymwybyddiaeth o'r dull gweithredu. Yn ychwanegol, gallai fod angen mwy o adnoddau er mwyn gwneud hyn yn effeithiol.

Mae llwyddiant dull Dyma Ni o ganolbwyntio ar y person gan deilwra gweithgareddau ar gyfer y cyfranogwyr a helpu i ddatblygu sgiliau yn golygu mai dyma'r model cyflawni sy'n cael ei argymhell ar gyfer unrhyw brosiectau tebyg, a thembla staff y prosiect y gallai'r prosiect fod yn drosglwyddadwy.

Yn olaf, mae Dyma Ni wedi dangos bod cyfle i brosiectau tebyg gael eu cyflwyno mewn lleoliadau eraill. Yn wir, gallai fod gan brosiectau tebyg lai o heriau i'w goresgyn na'r hyn a wynebai Dyma Ni; yn fwyaf nodedig, materion yn ymwneud â chludiant a'r ardal wledig.

5.2 Argymhellion

Dyma argymhellion ar gyfer cyflawni Dyma Ni ymhellach ac ar gyfer cyflawni'r prosiect yn ehangach mewn manau eraill.

Ar gyfer Dyma Ni

1. Dylid rhoi ystyriaeth i'r sgiliau sydd wedi'u cynnwys wrth gyflawni'r prosiect. Fel a nodwyd gan ambell riant a gofalwr, gallai cynnwys sgiliau bywyd fod o fudd ychwanegol i rai cyfranogwyr. Gallai'r sgiliau hyn gynnwys agweddau ar arian a chyllidebu, byw'n annibynnol, a defnyddio cludiant cyhoeddus.
2. Yn ychwanegol at yr uchod, gellid rhoi mwy o ystyriaeth i ddiddordebau penodol y grŵp, megis TGCh a gemau cyfrifiadur, er mwyn helpu i deilwra mwy o weithgareddau at ddiddordebau'r cyfranogwyr.
3. Gellid rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu cynlluniau datblygu personol gan staff. Gallai hyn gynnwys dull mwy hollataidd sy'n cynnwys rhieni a gofalwyr er mwyn cynorthwyo â'r datblygu ochr yn ochr â'r gweithgareddau yn Dyma Ni a chyfoethogi'r system gymorth.
4. Dylai Dyma Ni archwilio'r dull cyflawni drwy bartneriaeth ymhellach, megis gyda darparwyr cludiant neu ddarparwyr addysg lleol. Gallai hyn gael ei wneud ar sail fwy hyblyg na'r bartneriaeth â Green Rocket Futures, ac nid yn unig y gallai ddarparu ymgysylltiad uniongyrchol â'r bobl ifanc yn Dyma Ni, ond hefyd fod yn rhan o'r cymorth a'r arweiniad o ran y cyflawni. Gallai hyn hwyluso'r dysgu a allai effeithio'n gadarnhaol ar ba mor drosglwyddadwy yw'r prosiect.

5. Pe byddai Dyma Ni yn gweithio gyda phartner neu bartneriaid eto yn y dyfodol, dylid sefydlu fframwaith rhwng yartneriaid sy'n amlinellu'r dulliau cyflawni a diffiniadau o'r mecanweithiau cymorth. Byddai hyn yn sicrhau bod pawb yn cydweithio i gynnig cysondeb wrth gyflawni.
6. Yn yr un modd, dylai unrhyw waith gyda phartneriaid gynnwys cyfathrebu'n aml ac agored i sicrhau cysondeb mewn dulliau gweithredu a chyfoethogi'r profiadau sydd wedi'u teilwra i'r cyfranogwyr.
7. Yn debyg i gyfathrebu â phartneriaid, dylid sicrhau diweddariadau effeithiol ac aml ar y prosiect rhwng tîm Dyma Ni yn RAY Ceredigion er mwyn sicrhau bod gan holl staff y prosiect yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni'r prosiect a'i gynaliadwyedd.

Cyflwyno'r Prosiect yn Ehangach

1. Dylid ystyried bod dull canolbwyntio ar y person yn elfen allweddol mewn unrhyw brosiect o'r math hwn yn y dyfodol. Bu'r dull hwn yn allweddol i lwyddiant Dyma Ni a gellid efelychu'r model hwn mewn manau eraill.
2. Mae'n bwysig cynnig gweithgarwch ystyrllon i'r cyfranogwyr, gyda'r gallu i gynnig nid yn unig weithgareddau wedi'u teilwra, ond hefyd weithgareddau a ddyluniwyd i gynnig sgiliau i'r cyfranogwyr y gallant adeiladu arnynt a'u datblygu drwy gydol eu hamser yn y prosiect.
3. Dylai'r prosiect sicrhau cysondeb wrth gyflawni, gan gynnwys staff a lleoliadau'r prosiect. Mae'r lefel hon o gysondeb yn hanfodol i lawer sydd ag anableddau, ac yn caniatáu i'r cyfranogwyr adeiladu perthnasoedd cadarnhaol â staff a themlo'n ddiogel yn y lleoliad.
4. Dylai'r prosiect ystyried gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid gwahanol a all gynnig cyflawni'r prosiect yn hyblyg, gan gynnwys ystyried cynnig cymorth i aelodau'r teulu sy'n cefnogi'r bobl ifanc sydd ag anableddau.
5. Yn olaf, dylid ystyried pa gyllid ac adnoddau cyflawni sydd ar gael. Cyllid hirdymor fyddai orau er mwyn sicrhau bod prosiectau o'r math hwn yn cynnig sefydlogrwydd i'r bobl ifanc yma.

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

